



Coleg
Cymraeg
Cenedlaethol

Casgliad o dasgau i ddatblygu
ac asesu sgiliau iaith Gymraeg yn
erbyn y **Fframwaith Cymwyseddau
Iaith i Ymarferwyr Addysg**



**LEFEL UWCH NEU
HYFEDREDD**

Llyfryn Tasgau Uwch/Hyfedredd

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys nifer o dasgau Uwch/Hyfedredd i ddatblygu ac asesu pob sgil yn y Fframwaith Cymwyseddau Iaith i Ymarferwyr Addysg.

Mae croeso i chi:

- argraffu tasgau
- lawrlwytho tasgau
- addasu tasgau i siwtio'ch anghenion chi
- addasu teitlau'r dogfennau i'ch siwtio chi
- ddefnyddio unrhyw dasg a fydd yn eich cefnogi chi i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg ac i asesu myfyrwyr yn erbyn y Fframwaith.

Tabl cynnwys

Tasg llafar 1	3
Tasg llafar a darllen	4
Tasg llafar a gwrando 1	5
Tasg llafar a gwrando 2	6
Tasg ysgrifennu 1	7
Tasg ysgrifennu 2	8
Tasg ysgrifennu 3	9
Tasg ysgrifennu 4	10
Tasg ysgrifennu ac addysgeg	11

Tasg Llafar (1): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Recordiwch ddeialog gyda'ch mentor yn trafod eich defnydd o ddulliau gwahanol i gyflwyno iaith. Eich mentor fydd yn dechrau'r sgwrs.

Hyd y sgwrs: tua 15 munud.

Cofiwch mai asesu eich mynegiant ieithyddol yw prif fwriad y gweithgaredd. Gyda hyn mewn golwg, ystyriwch yn ofalus feini prawf llafar y Fframwaith Cymwyseddau Iaith (C1 neu B2), wrth strwythuro'ch ymatebion.

Gall y dasg hon hefyd gael ei hystyried fel tystiolaeth ar gyfer yr adran **Addysgu a Dysgu**.

Tasg Llafar a Darllen (1): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Grwpiau o dri neu bedwar. **15-20 munud.**

Gan ddefnyddio'r erthyglau isod fel sail i'ch trafodaeth, ystyriwch y dadleuon o blaid ac yn erbyn diwygio'r flwyddyn ysgol. Beth yw'ch barn chi?

Dylech chi recordio'r sgwrs a dangos eich bod yn gwrando ar eich gilydd ac yn ymateb i safbwyntiau gwahanol. Ni ddylech sgriptio eich ymatebion.

Agweddau at ddiwygio'r flwyddyn ysgol yng Nghymru. (2022)

<https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-06/adroddiad-ar-ymchwil-ac-ymgysylltu-yng-hylch-y-flwyddyn-ysgol-beaufort-research.pdf>

Dweud dy Ddweud: Y flwyddyn Ysgol Yng Nghymru. Meic Cymru. (2021)

[Dweud dy Ddweud: Y Flwyddyn Ysgol Yng Nghymru - Hafan - Meic \(meiccymru.org\)](https://meiccymru.org/dweud-dy-ddweud-y-flwyddyn-ysgol-yng-nghymru-hafan-meic)

Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: adolygiad o'r dystiolaeth. Llywodraeth Cymru (2022).

[Effeithiau newidiadau i'r flwyddyn ysgol a chalendrau ysgolion amgen: adolygiad o'r dystiolaeth \(Llywodraeth Cymru\)](https://llywodraeth.cymru/effeithiau-newidiadau-i-r-flwyddyn-ysgol-a-chalendrau-ysgolion-amgen-adolygiad-o-r-dystiolaeth)

Tasg Llafar a Gwrando (1): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Gwrandewch ar y sgwrs AmDani am ddatblygu Cymraeg Cymdeithasol disgyblion:

Mae ar y podlediad Am Filiwn <https://linktr.ee/amfiliwn>

Ar ôl i chi ei ddarllen, trafodwch mewn grŵp o dri neu bedwar am **15-20 munud**.

Dylech recordio eich trafodaeth a chyflwyno eich hunan yn glir ar ddechrau'r recordiad. Ceisiwch ymateb i'ch gilydd yn naturiol. Ni ddylech ddarllen eich nodiadau.

Defnyddiwch y camau isod fel sail i'ch trafodaeth:

1. Crynhowch brif bwyntiau'r drafodaeth.
2. Trafodwch rai o'r syniadau ymarferol a awgrymir ar y podlediad.
3. Ydych chi wedi profi ffyrdd tebyg o hybu'r Gymraeg yn eich ysgol chi?
4. Adfyfyriwch ar negeseuon anogaeth y cyfranwyr gwadd. Pa neges o anogaeth fasech chi'n ei rhoi i ymarferydd ifanc arall, o ran hyrwyddo'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg?

Tasg Llafar a Gwranddo (2): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Gwrandewch ar ddarlith Yr Athro Enlli Thomas, *Addysg, y pandemig a'r Gymraeg*:

<https://www.youtube.com/watch?v=DC66xHrGcIE>

Yna, trafodwch y cynnwys mewn **grŵp o dri** gan sicrhau fod pawb yn cyfrannu.

Ni ddylech sgriptio'ch atebion o flaen llaw, ond yn hytrach, dylech wrando ar atebion eich gilydd ac ymateb yn rhydd iddynt.

Dylai'r drafodaeth ganolbwyntiau ar y canlynol:

- Beth oedd effaith symud addysg drochi o gyd-destun yr ysgol i gyd-destun y cartref yn ôl ymchwil Yr Athro Enlli Thomas a'i chyd-weithwyr?
- Awgryma Enlli Thomas fod modd manteisio ar y ffaith bod disgyblion Cymru yn ddwyieithog er mwyn cyfoethogi ar eu profiad ysgol - ydych chi'n cytuno â'i sylw?
- Pa strategaethau llefaredd ydych chi'n hoffi eu defnyddio a pham?
- A ddylid ystyried athrawon ysgolion Cymraeg a dwyieithog yn athrawon arbenigol fel yr awgrymir yn y ddarlith?
- Beth yw'r ffordd orau o werthu statws a bri addysgu fel proffesiwn yn eich barn chi?

Hyd y drafodaeth: **15-20 munud**

Gellid hefyd ddefnyddio'r dasg hon fel tasg **Gwranddo ac Ysgrifennu** gan ofyn i'r ymarferwyr amlinellu eu hatebion i'r cwestiynau uchod yn ysgrifenedig.

Tasg Ysgrifennu (1): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Lluniwch lythyr ffurfiol at riant/ warcheidwad yn rhannu gwybodaeth bwysig am agwedd ar fywyd yr ysgol.

Er enghraifft: manylion trip ysgol, neu strwythur a threfn noson agored.

Tasg Ysgrifennu (2): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Lluniwch ddatganiad personol ar gyfer swydd addysgu, gan fanylu ar eich addasrwydd ar gyfer y swydd honno. Manylwch ar eich profiad, eich sgiliau a'ch cryfderau.

Asesir eich mynegiant ieithyddol, nid cynnwys y llythyr. Dylech ddefnyddio paragraffau estynedig ac ystod o ffurfiau ieithyddol ffurfiol.

Tasg Ysgrifennu (3): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Lluniwch adfyfyried beirniadol ar addysgeg iaith. Dylech drafod o leiaf dri dull, o'ch dewis chi, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu iaith dysgwyr yn y dosbarth.

Er enghraifft: modelu a dynwared, drilio ac adeiladu brawddegau.

Tasg Ysgrifennu (4): Uwch neu Hyfedredd

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Lluniwch adroddiad cynhwysfawr ar waith dysgwr/dysgwraig, gan dalu sylw priodol i'w gynnydd/i'w chynnydd a'r agweddau hynny o'u gwaith sydd angen eu datblygu ymhellach.

Cofiwch mai asesu eich mynegiant ieithyddol yw prif fwriad y gweithgaredd hwn. Gyda hyn mewn golwg, ystyriwch yn ofalus feini prawf ysgrifennu'r Fframwaith Cymwyseddau Iaith (C1 neu B2), wrth strwythuro'ch adroddiad.

Tasg Ysgrifennu ac Addysgeg: Uwch neu Hyfedredd

Log adfyfyriol.

Cyfarwyddiadau'r dasg:

Gallwch gynnwys dau neu fwy o fyfyrddodau Ymchwil ac Ymholi a gwblhawyd gennych. Defnyddiwch dempledi myfyriol Kolb, Bain et al., Driscoll neu Gibbs. Wele'r tasgau awgrymiadau isod:

1. Cwricwlwm Cymreig

Awgrymiadau ar gyfer eich Ymchwil ac Ymholi

- Arsylwi ar eich mentor ac athrawon eraill yn dysg sawl Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh)
- Edrychwch ar yr adnoddau a ddefnyddir ar gyfer sawl MDaPh.
- Edrychwch ar ystod o gynlluniau sawl MDaPh
- Oes polisi ysgol yn cyfeirio at hyn?
- Sut mae hyn yn cael ei hyrwyddo mewn gwasanaethau/ cyngherddau/ digwyddiadau cyfoethogi?
- Ewch am daith dysgu o gwmpas yr ysgol, siaradwch gyda phlant ac athrawon,
- Siaradwch gyda myfyrwyr eraill – beth maen nhw wedi ei weld?

Cofiwch ddarllen:

Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig (LI.C., 2003) <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-cymru-2008/canllawiau-ynghylch-pynciau/datblygu-r-cwricwlwm-cymreig>

Adolygu'r Cwricwlwm Cymreig (LI.C., 2013) <https://llyw.cymru/grwp-adolygur-cwricwlwm-cymreig-yr-adroddiad-terfynol>

2. Addysgu drwy'r Gymraeg

Awgrymiadau ar gyfer eich Ymchwil ac Ymholi

- Arsylwi ar eich mentor ac athrawon eraill
- Edrych ar adnoddau
- Edrych ar gynlluniau gwersi
- Oes polisiau ysgol am hyn?
- Ewch am daith dysgu o gwmpas yr ysgol, siaradwch gyda phlant ac athrawon

Cofiwch ddarllen:

Baker (2018) <https://www.bangor.ac.uk/education-and-human-development/documents/English-pages.pdf> Rydych chi wedi darllen hwn eisoes.

Fitzpatrick *et al.* (2018) <https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-06/180607-effective-second-language-teaching-approaches-methods-en.pdf> canolbwyntiwrch ar dud. 62-69. (Mae hwn yn llai perthnasol oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar ddatblygu'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg – ond mae'n dal yn ddiddorol)

3. Hyrwyddo'r Gymraeg – Siarter Iaith

Awgrymiadau ar gyfer eich Ymchwil ac Ymholi

- Edrychwch ar wefan yr ysgol a'r cyfrif Trydar i weld os ydy digwyddiadau allgyrsiol / tripiâu ac ati yn ategu hyn
- Oes cyfeiriad at hyn mewn gwasanaethau?
- Trafodwch gyda'r mentor ac athrawon eraill
- Beth am arwyddion a phosteri o gwmpas yr ysgol?
- Oes polisiau/ cynlluniau gwobrwyo perthnasol i hyn?
- Ewch am dro, siaradwch a phlant
- Siaradwch gyda chyd-fyfyrwyr – beth maen nhw wedi ei weld?

Beth am ddarllen:

Siarter Iaith Framework <https://hwb.gov.wales/api/storage/0a2f5bb1-c1fb-412b-9a9c-0c0643d4734f/fframwaith-siarter-iaith.pdf>

Gwerthusiad o'r Fframwaith Siarter Iaith <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2020-07/gwerthusiad-or-siarter-iaith-a-rhaglenni-cysylltiedig-crynodeb.pdf>
(crynodeb)

**Diolch i bob Prifysgol sydd wedi cyflwyno
tasgau ar gyfer y pecyn hwn:**

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Abertawe
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Prifysgol De Cymru
- Prifysgol Metropolitan Caerdydd
- Y Brifysgol Agored